

Trosolwg

Friday, January 3, 2020 11:04 AM

Teitl: Adfyfrio beirniadol ysgrifenedig ar eich cynnydd o ran cynllunio a gweithredu egwyddorion addysgegol, gydag argymhellion ar gyfer sicrhau cynnydd pellach.

Enw Myfyriwr: Allana Beckett

Rhif Myfyriwr: 1304446

Llwybr: Tar Cynradd

Link: https://uowtsd-my.sharepoint.com/:o/g/personal/1304446_student_uwtsd_ac_uk/EktwhOZ-Gr1HpseeO0xADccBRn9zR3qgPMSMeYn5j33o3w?e=xaH014

Fe fydd yr aseiniad yma yn adfyfrio nôl at brofiad lleoliad PAP1. O fewn y lleoliad yma, fe wnaethom fynychu ysgol sydd yng nghanol gwlad, ysgol iaith Gymraeg ac un poblogaidd iawn. Mae gan yr ysgol dros bedwar cant o ddisgyblion a rhai sydd yn dysgu yn y ffrwd Saesneg. Y rheswm am hyn yw achos fod yr ysgol wedi newid o ysgol ddwyieithog i ysgol hollol Gymraeg ac felly mae dal rhai dosbarthiadau sydd yn symud ar draws yr ysgol o fewn y ffrwd Saesneg. Mae tua wythdeg y cant o ddisgyblion yn derbyn addysg ffrwd cymraeg ac o fewn yr ysgol mae tua dau ddeg y cant o disgyblion efo anghenion dysgu ychwanegol a canran isel yn derbyn prydau bwyd am ddim. Arsylwais am yr wythnos gyntaf gan symud ymlaen at addysgu'r dosbarth blwyddyn pedwar am y pum wythnos olaf. O fewn yr aseiniad yma, fyddaf yn adfyfrio'n beirniadol ar yr amser a addysgwyd y disgyblion, wrth gwneud hwn fyddaf yn cyfeirio nôl at egwyddorion Donaldson gan edrych ar tri yn benodol. Fyddwn yn edrych ar lenyddiaeth wahanol ai syniadau nhw ar addysgu a dysgu effeithiol.

Egwyddor addysgegol: Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu

Friday, January 3, 2020 11:05 AM


Mae pob disgybl o fewn pob dosbarth efo'r hawl i ddysgu a llwyddiant i'r gorau a gellid. I sicrhau fod hyn yn digwydd mae angen asesu pob disgybl i weld lle mae pob unigolyn o fewn ei addysg. Mae asesu yn gallu dangos yn glir ble mae dealltwriaeth disgyblion o fewn y gwrs, mae asesu hefyd yn gallu dangos pethau sydd efallai ddim wedi cael ei weld o blaen. Mae nifer o ysgolion yn defnyddio asesiadau ffurfiannol, rhai a defnyddiais o fewn PAP1, mae asesiadau ffurfiannol yn chwarae rôl enfawr o fewn dysgu disgyblion a gweli'r hyn gan Black a William (1998) o fewn Clarke (2005, t1) fod asesiadau ffurfiannol yn ffordd o sicrhau fod disgyblion yn dysgwyr gydol oes. O fewn y gwrsi yn PAP1 defnyddiais nfer o wahanol strategaethau am asesu ar gyfer dysgu gyda phob un efo manteision ac anfanteision a dyma enghreifftiau o rhai strategaethau yn y lluniau yma.

O fewn pob gwrs yn bendant defnyddiais y ffon loli, bys bawd goleuadau traffig a sticeri lliw ar ddiwedd y wers. Pwrpas defnyddio'r ffon loli oedd sicrhau fod pob disgybl yn dilyn y wers ac yn gwrandao gan fod enw unrhyw un yn gallu cael ei ddewis er mwyn ateb y cwestiwn. Roedd y strategaeth yma hefyd yn ffordd o ddangos tegwch a ddim gwahaniaethu gan fod enwau unrhyw un yn gallu dod allan a dim bod fiyn dewis enwau penodol neu rhai sydd gyda'i ddwylo i fynnu. Bu'r ffon loli yn dueddol o gael ei ddefnyddio o fewn dechrau'r wers ac yn y clo.

Defnyddiais y goleuadau traffig yn effeithiol o fewn pob gwrs a dysgwyd ac ar draws y wers i gyd. Fyddai'r goleuadau traffig yn bwysig er mwyn i'r disgyblion dangos ei dealltwriaeth o fewn y gwrsi ac o fewn pob adeg o'r wers e.e. dechrau, canol ar glo. Pwrpas y strategaeth yma yw i ddisgyblion ymateb efo'r goleuadau i gwestiynau penodol a fydd yn dangos ei dealltwriaeth o fewn y wers ar waith academiaidd.

Y strategaeth olaf fyddwn yn edrych ar yn fanwl yw'r sticeri lliw. Pwrpas y strategaeth yma yw, ar ddiwedd y wers mae'r disgyblion yn adfyfyrio nôl ar y wers ac ar ei waith academiaidd ac yn dewis sticer lliw penodol e.e. gwyrdd am wedi deall, melyn am wedi deall ond wedi gwebl bach yn anodd, a coch am ddim yn ddeall dim. Wrth wneud hyn, pan yr ydym yn marcio llyfrau'r disgyblion rydym yn gallu gweld beth yw gwir farn y disgyblion am y wers a sut roedden nhw yn teimlo am y wers a'i dealltwriaeth. Os yw'r sticer yn goch, yn syth fyddant yn gweithio yn unigol gyda'r disgybl ar ryw adeg o'r wythnos i fynd nôl dros y gwaith a sicrhau fod nhw yn deall yr ail dro.

Gweli'r yn yr adfyfyrio beirniadol tair gwahanol amser penodol pan ddefnyddiwyd y tair strategaethau yma a beth oedd y manteision ac anfanteision o bob un. Fyddaf yn adfyfyrio yn nôl at ddefnyddio'r rhain o fewn y gwrsi a addysgwyd.



Tocyn hunanwerthuso / Self-assessment ticket

Po mor hyderus ydw i gyda fy ngwaith cyfaint, ongl a safle?

 ~~✓~~	 ✓	
--	---	---

Sut allaf wella?

meddwl yn mwy mwy o waeth
arno * yno y cyfaint

* Da iawn Amelua
T- Angen cofio rheol cyfaint

*Yn eidd bannod pwrta
fay? why?*

Taflen Werthuso

Rwy'n asesu gwaith:

fy hun	☐	
fy mhartner	☒	
fy ngrŵp	☐	

★ *on opening points*

★

T *Tafelso y gŵyllell*

Good effort! You have gone into detail with the Burger King packs and used good connectives as a T - Work on your introduction more

Egwyddor addysgegol: Drwy addysgu a dysgu da bydd cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan cynnwys llythrennedd, rhifedd a cymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Friday, January 3, 2020 11:05 AM

Mae defnyddio wersi trawsgwricwlaidd yn ehangu ar ddealltwriaeth a dysgu disgyblion, maent hefyd yn sicrhau fod y disgyblion yn dysgu sgiliau newydd o fewn pob gwers. Mae dysgu yn drawsgwricwlaidd yn sicrhau fod disgyblion yn dysgu sgiliau bywyd pob dydd ac yn ddysgwyr uchelgeisiol. Fel gweli'r yn y dystiolaeth yma, defnyddiais nifer o sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn wersi gwahanol ar draws fy amser ar PAP1. Gweli'r bod wersi trawsgwricwlaidd yn cynnwys defnyddio sgiliau rhifedd a llythrennedd a chymhwysedd digidol o fewn wersi gwa hanol.

Y gwersi a dewiswyd i arddangos fel tystiolaeth o wersi trawsgwricwlaidd yw dwy wers Mathemateg ac un wers Daearyddiaeth. O fewn y gwersi yma gweli'r bod llawer o gymhwysedd digidol wedi cael ei ddefnyddio gan fod y disgyblion yn ffodus iawn o gael gliniaduron a lpadys o fewn y dosbarth. Defnyddiais lawer o llythrennedd a rhifedd o fewn y gwersi hefyd. Yr hyn dw i yn teimlo sydd yn bwysig yw bod y gwersi ac elfennau o drawsgwricwlaidd yn berthnasol i'r wers ac yn sicrhau fod y disgyblion yn dysgu sgil newydd. Teimlais fod nifer o fanteision ac anfanteision i sicrhau cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd a fydd hyn yn cael ei thrafod o fewn yr adfyfrio beirniadol gan roi tair enghraifft wahanol ar pam ddefnyddiais y rhain o fewn y dosbarth ar PAP1.



Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Miss Beckett	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Mathemateg	Dyddiad:	23.10.19
Ffocws Gwers:	Canfod y gwahaniaeth o fewn 1,000		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Disgyblion yn gallu canfod y gwahaniaeth o fewn 1,000		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Fframwaith cymhwysedd digidol Fframwaith Llythrennedd (Llywodraeth Cymru) 'Contribute to group discussion, sharing ideas and information'. Fydd y disgyblion yn gweithio fel dosbarth er mwyn gwneud y gweithgareddau ar y bwrdd digidol gan gael trafodaeth o sut i weithio'r cwestiwn allan, gelli'r trafod fel grŵp hefyd. Fframwaith rhifedd (Llywodraeth Cymru) 'Find differences within 1000'. Fydd y disgyblion yn defnyddio sgiliau rhifedd phob dydd er mwyn adnabod sut i weld y gwahaniaeth o fewn 1000'.		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			

Darpar Athro	Miss Beckett	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Mathemateg	Dyddiad:	23.11.19
Ffocws Gwers:	Defnyddio a darllen thermomedrau		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Sgîl: nodi darlenniadau tymheredd drwy ddefnyddio thermomedrau a dehongli darlenniadau uwch ac is na 0°C.		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Fframwaith cymhwysedd digidol: Defnyddio bwrdd digidol er mwyn cael ymrwymiad y disgyblion o fewn y wers ac i ddangos yw cyfoedion enghreifftiau o sut i ddarllen thermomedrau wahanol. Rhifedd – Elfen or Cwricwlwm gan Llywodraeth Cymru 'Learners are able to; take temperature readings using thermometers and interpret readings above and below 0°C'. Cwestiynau rhifedd priodol ar draws y wers ac o fewn ei llyfrau i dangos y dealltwriaeth o hyn. Llythrennedd – Elfen or Cwricwlwm gan Llywodraeth Cymru 'learners should be able to; listen carefully and make connections between what they are learning and what they already know'. Chwarae gem fel grŵp i ddechrau bant gan symud i fynnu ac i lawr llinell rhif i atgoffa nhw o sut i'w defnyddio.		

Cynllun Gwers Cam 1

Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Miss Beckett	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	<u>Daearyddiaeth</u>	Dyddiad:	07/11/19
Ffocws Gwers:	<u>Sgiliau: Daearyddiaeth:</u> <u>Lleoli lleoedd, amgylcheoedd a phatrymau</u> • <u>Ganfod a lleoli lleoedd ac amgylcheddau trwy ddefnyddio atlasau a mapiau</u> • <u>Defnyddio mapiau i gyflwyno gwybodaeth leoliadol, defnyddio symbolau ac allweddau.</u>		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Byddant yn defnyddio globau a mapiau i ddod o hyd i wybodaeth am <u>leoedd ac yn llunio mapiau gan ddefnyddio allwedd a symbolau, ac yn deall cyfarwyddiadau</u>		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	<u>Llythrennedd: (Sgîl y cwricwlwm: ymchwilio er mwyn caffael gwybodaeth, asesu dilysrwydd a thuedd data ac adroddiadau yn cyfryngau, ac addasu eu cyflwyniadau eu hunain i wahanol gynulleidfaoedd).</u> <u>Fframwaith cymhwysedd digidol: Sgîl (ddefnyddio sgiliau TGCH i gyrchu'r rhyngwrdd am wybodaeth fyd-eang)</u>		
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			

Egwyddor addysgegol: Mae addysgu a dysgu da yn olygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac ennyn diddordeb.

Friday, January 3, 2020 11:05 AM

Wrth edrych ar yr egwyddor addysgeg yma gweli'r ei fod yn cyd fynd gyda beth yw prif pwrpas y cwricwlwm a gweli'r hyn gan Llywodraeth Cymru (2017),

The purpose of the new curriculum is to support our children and young people to be:

- ambitious, capable learners, ready to learn throughout their lives
- enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work
- ethical, informed citizens of Wales and the world
- healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.

Wrth ystyried yr egwyddor addysgeg yma fe welwn fod y cwricwlwm newydd yn sicrhau fod disgyblion yn barod am ei dyfodol ac yn llawer mwy ymrwymol o fewn ei addysg.

Mae gosod tasgau a dewis adnoddau priodol yn adeiladu ar ddysgu disgyblion. Mae'r ffordd eich bod yn gosod targedau ac yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiad disgyblion yn dylanwadu ar y gwaith mae'r disgyblion yn cyflawni. Mae cael diddordeb y disgyblion o fewn y gwersi ac amdano'r pwnc yn hybu'r disgyblion ac yn deny ei sylw o fewn y gwersi.

O fewn wersi laith a Thema, edrycho'n ni fel dosbarth ar ailgylchu a'r defnydd o tegannau plastic. O fewn y gwersi yma ac wrth greu dadl ar lafar ac yn ysgrifenedig, teimlodd y disgyblion yn gryf iawn gyda rhai pwyntiau a bu'r disgyblion yn ennyn diddordeb i mewn i'r gwersi gan fod hwn yn rhywbeth sydd yn berthnasol i'w oedran ac oherwydd bod y disgyblion yn mynychu McDonalds a Burger King gan dderbyn y teganau. Wrth wneud hyn a defnyddio adnoddau priodol, e.e gwyllo fideo David Attenborough gyda sbwriel o fewn y môr, newidiodd hyn safon o weithio'r disgyblion gan ein bod ni yn adeiladu ar yr hyn maent yn ei wybod yn barod a hefyd yn ennyn diddordeb gan ddod a phroblemau'r byd i mewn i'r gwersi. Yr hyn a weithiodd yn dda oedd y trip i Gefn Sidan, gyda'r thema ar topic a oeddwn yn gweithio arno fe wnaethom fynd i'r traeth i ddysgu am effaith y sbwriel ac effaith plasctig ar y traeth ac o fewn y môr. Wnaeth y disgyblion nifer o weithgareddau gan ddysgu nifer amdano'r effaith mae'r sbwriel yn cael.

Wrth wneud y gwaith yma, bu hyn yn baratoad i'r disgyblion am yr asesiad oedd yn dod. Bu angen i'r disgyblion ysgrifennu dadl am tegannau plastic o fewn yr asesiad. O wythnosau o baratoi bu'n bwysig fod y disgyblion yn cael targedau er mwyn wella. Wrth roi targedau fy wnaethom hwn yn ben porffor a bu'r disgyblion yn ymateb yn feiro gwyrd. Weithiodd hyn yn arbennig i godi safon y gwaith ac i sicrhau gwell dealltwriaeth i'r disgyblion. O fewn yr adfyfrio beirniadol, fe welwn y manteision ac anfanteision o'r egwyddor yma o fewn PAP1.

Cynllun Gwers Cam 1 Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Miss Beckett	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iaith (Language) a Asesiad Dydd Gwener		
Ffocws Gwers:	Task: Plan a balanced discussion based on the topic "should plastic toys be banned from children's meals?"		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	• Skill: gather ideas to plan writing • organise writing into logical sequences or sections by beginning to use paragraphs		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Lythrennedd: • Developing and presenting information and ideas: after listening, respond, giving views on what the speaker has said • Explore different situations through role play. • Help a group to reach agreement, e.g. considering reasons or consequences, keeping focus on the topic. • Write an introduction, develop a series of ideas and a conclusion. • Use language appropriate to writing, including standard forms of English.		
Disgyblion yn mynd ati i ysgrifennu dadl am yr hyn maen nhw wedi dysgu yn barod. Paratol am asesiad dydd Gwener.			
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			

Cynllun Gwers Cam 1
Cynllun Gwers – Cam 1 Cynllun Gwers

Darpar Athro	Miss Beckett	Dosbarth:	Blwyddyn 4
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Iaith (Language) – Ordering against and for.		
Ffocws Gwers:	To order reasons for and against banning plastic toys in children's meals		
Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm	Skill: note down ideas to use in writing		
Cysylltiadau ystyrlon â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd	Llythrennedd: - Developing and presenting information and ideas; after listening, respond, giving views on what the speaker has said - Explore different situations through role play. - Help a group to reach agreement, e.g. considering reasons or consequences, keeping focus on the topic. <u>Fydd y disgyblion yn gwneud hwn trwy ddechrau bant gydag adolygiad o ddadl yn parhau neu grŵp / fel dosbarth i atgoffa nhw o'r eirfa briodol rydym yn defnyddio a sut i gael dadl sydd yn cyd-fynd efo'r sgil cyntaf ac ail. Fydd y disgyblion yn gallu gweithio fel par neu grŵp i fynd ati i ddechrau gwneud gweithgareddau ar drefnu brawddegau 'For and Against' gan gofio ble mae'r eirfa a brawddegau priodol yn mynd a dyma fydd prif ffocws y wers.</u>		

Tuesday, November 20th, 2019

Miss Beckett

To order reasons for and against banning plastic toys in children's meals

Decide on arguments for and against banning plastic toys

Order the arguments in order of importance

Form a personal opinion on the matter. In my opinion....

Express your own opinion / discussion on banning plastic toys in children's meals.

Should we ban plastic toys in kids meals?

Facts about plastic toys

- Burger King is removing them from today to save an estimated 320 tonnes of plastic waste per year.
- It's also going away from kids' meals to people who return plastic toys
- McDonald's said it will let customers swap plastic toys in its Happy Meals for fruit bags or books.
- roll-out of paper straws, the removal of McFlurry plastic lids and of single-use plastic from salads, would reduce waste by 1,000 metric tonnes annually.
- The plastic will then be melted down and transformed into new play areas and restaurant items.

For

Plastic toys cannot be recycled properly because they are made with lots of different materials. Recycling them is causing plastic pollution.

Against

no comics are used with the toys. They can be washed easily with out chemicals. They are easy and cheap making.

the cheap the children will have a toys and again food and the environment will not be harmed.

Conclusion:

it's consider to have lost at both sides. I think this is the best way to ban plastic toys because it's bad for the environment and they are cheap.

cheap
banned

ocean
ruined

Taflen Werthuso

Rwy'n asesu gwaith:

fy hun ☐

fy mhartner ☒

fy ngrŵp ☐

an opening paragraph introducing the topic

concluded a conclusion

You need to read over some sentences to make sure they make sense

the same lesson, dad's do
Bad reflexes cause.

Trafodaeth ynghylch llenyddiaeth ar addysgu a dysgu effeithiol (gyda ffocws penodol ar yr egwyddorion addysgegol sydd dan ystyriaeth)

Mae addysgu a dysgu da yn hollol bwysig o fewn pob ysgol a dosbarth. Mae'r math o addysg mae disgyblion yn derbyn yn adlewyrchu nôl at yr athrawon a addysgwyd. Yng Nghymru mae gan Lywodraeth Cymru safonau uchel sydd angen i athrawon i'w cyflwyno i sicrhau athrawon llwyddiannus, fod yr ysgol yn llwyddiannus a gorau gyd fod y disgyblion yn dysgu yn effeithiol. Dangosa Llywodraeth Cymru (2019, para 2) fod safonau proffesiynol athrawon yn cynnwys fod Llywodraeth Cymru yn rhoi disgwyliadau o beth yw addysgu effeithiol i athrawon a bod angen i athrawon adlewyrchu nôl ar ei waith yn unigol ac o fewn grŵp i weithio ar ei waith ac i ddatlu ei llwyddiant. Dangosa Llywodraeth Cymru fod y safonau proffesiynol maen nhw yn disgwyl yn cyd-fynd efo gofynion y cwricwlwm ar egwyddorion addysgeg a thrafodwyd.

Bwriad Donaldson ar gwricwlwm newydd yw creu brofiadau ymrwymol, diddorol a rhai heriol er mwyn creu addysg uchelgeisiol a llwyddiannus, EWC, (2016, t2). Mae'r cwricwlwm yma am sicrhau fod disgyblion yn mynychu ysgol ac yn dysgu sgiliau pob dydd o fewn y dosbarth, ond er ddweud hynny, gwelir gan EWC (2016, t2) fod dyma'r peth fwyaf anodd a heriol sydd wedi cymryd lle,

What our children and young people learn during their time at school has never been more important, yet at the same time, the task of determining what that learning should be has never been more challenging.

Egwyddorion Donaldson yw'r prif bwyntiau o'r cwricwlwm newydd sydd yn dod i mewn ar draws pob ysgol yng Nghymru. Y 3 prif egwyddorion fydd yr aseiniad yma yn edrych ar yw:

1. Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu
2. Drwy addysgu a dysgu da bydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.
3. Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb, gwelwn y rhain gan Donaldson, (2015, t63-70).

Wrth i athrawon chyflawni'r rhain o fewn y dosbarth, mae Estyn (2018, t5) yn arddangos o fewn ei adroddiad 'Arloesi cwricwlwm mewn ysgolion cynradd' bod gan ysgolion y cyfrifoldeb o sicrhau fod y pedwar diben o fewn waith ym mhob ysgol. Gweli'r bod y pedwar diben ac egwyddorion addysgeg Donaldson yng nghyd fynd ai gilydd. Pwrpas y pedwar diben yw sicrhau disgyblion llwyddiannus. Gweli'r gan Estyn (2018, t5) fod Donaldson am i ddisgyblion fod yn blant uchelgeisiol, medrus a disgyblion sydd yn ddigon parod i weithio. Dangosa'r adroddiad Estyn (2018) fod nhw am greu disgyblion sydd yn barod i'r byd go iawn, ac sydd yn unigolion ddigon creadigol, iachus a hyderus. Mae Donaldson am weld fod y disgyblion yn wybodus or byd sydd o'n amgylch a bod y disgyblion yn ddinasyddion moesegol. Wrth edrych nôl at y tair egwyddor a esbonia'r yn gynharach, gwelwn fod y tair egwyddor yma yn hybu pedwar diben Donaldson sydd yn effeithio ar addysg y disgyblion.

Wrth i Estyn (2018) fynd ar draws ysgolion yng Nghymru er mwyn weld sut bu ysgolion yn ymwneud efo'r cwricwlwm newydd ar ddefnydd or egwyddorion pedagogiaidd, welsom fod nifer o fanteision wedi bod. Dangosa Estyn (2018, t7) fod nifer o'r ysgolion yn ymweld ai cwricwlwm ar hyn o bryd ac yn edrych at ailedrych ar yr hyn maent yn gwneud ar y foment. Gwelodd fod aelodau o'r ysgolion yn ymddangos yn frwdfrydig ac yn barod i ddatblygu dulliau integredig o ddysgu gwahanol. Yn gyd fynd gyda'r egwyddor gyntaf, arddangosa'r adroddiad fod ysgolion yn cynnwys nifer o fewn ei wersi 'Mae llawer o wersi yn cynnwys cyfleoedd rheolaidd, i ddisgyblion ymchwilio, arsylwi, cofnodi, arbrofi, datblygu syniadau, dychymyg a chreu' Estyn (2018, t10). Arddangosa'r adroddiad fod disgyblion yn defnyddio ei lais nhw o fewn wersi amdano beth maent am ddysgu. Gweli'r bod yr ysgolion yn defnyddio sgiliau arsylwi'r disgyblion sy'n cyd-fynd ar egwyddor gyntaf, wrth gael disgyblion annibynnol o fewn y dosbarth, mae hyn yn rhoi cyfle i'r athrawon asesu ac adnabod lle mae disgyblion o fewn ei waith academaidd.

Wrth sicrhau addysgu a dysgu effeithiol ac i gyd fynd gyda'r tair egwyddor rydym yn edrych ar, mae gan bob ysgol cyfrifoldeb i sicrhau fod pob gwers yn cynnwys un o'r adrannau trawsgwricwlaidd a bod nhw yn dilyn yr ail egwyddor a welsom yn gynharach. Dangosa Assessment Foundation (2017, para 7) esboniad clir o hyn, 'Structurally, the new curriculum is to be compromised of six 'Area's of Learning and Experience'. These will be underpinned by three 'Cross-Curriculum Responsibilities': Literacy, Numeracy and Digital Competence'. Dangosa'r adroddiad gan Estyn (2018) fod ysgolion yn gweithio tuag at y gwersi trawsgwricwlaidd ac mae hyn yn galluogi nhw i gynllunio er mwyn gallu sicrhau fod nhw yn cyrraedd y pedwar diben. Mae'r pwyslais ar wersi trawsgwricwlaidd o fewn ysgolion heddiw yn enfawr, dangosa adroddiad Donaldson fod dyma un o'r egwyddorion pwysicaf sydd angen i ysgolion weithio tuag at.

Gweli'r bod pwyslais o fewn y cwricwlwm newydd er mwyn sicrhau diddordeb i ddisgyblion ac i ehangu ar ei ddealltwriaeth, dangosa Donaldson (2015) yn y drydedd egwyddor rydym wedi bod yn trafod lle mae cael diddordeb y disgyblion yn bwysig, ond yr adnoddau ar heriau sydd yn chwarae rôl enfawr o fewn dysgu'r disgyblion. O fewn adroddiad Estyn (2018) mae'n amlwg fod yr ysgolion yn dysgu sut i herio disgyblion. Yn gyd fynd a hyn, dangosa Impact School Improvement (2016-2019) fod nhw wedi bod yn gweithio gydag ysgol 'Ty Sign Primary' mewn Caerphilly fel ysgol sydd wedi bod yn cefnogi ac yn cydweithio tuag at gwricwlwm newydd Donaldson. Wrth weithio tuag at y cwricwlwm, gwelodd yr ysgol fod ganddynt rhai targedau i weithio arno, yr un sydd gyda'r fwyaf o ffocws yw sicrhau fod gan ddisgyblion mwy abl a thalentog (MATH) fwy o gymorth er mwyn herio ac ymestyn ar ei ddysgu, er bod hyn am y disgyblion MATH, mae'r ysgol yn bwriadu i wneud hyn i bob unigolyn o fewn yr ysgol.

Fe welwn yn gynharach y manteision sydd yn dod o'r tair egwyddor yma, fyddai rhai yn dadlau yn wahanol am y cwricwlwm newydd gan dangos yr anfanteision, er ei fod yn sicrhau addysgu a dysgu effeithiol, dangosa Newton (2018) fod nhw wedi bod yn siarad gydag ysgolion arloeswr sydd wedi rhoi adborth nôl o'i phrofiad. Gwelwn gan Newton, (2018, para 2) o fewn BERA,

Without such additional time and support it is hard to envisage how teachers in 2022 will be able to coherently and effectively incorporate these sorts of initiatives into their teaching. This is a worry that those interviewed described.

Dangosa hyn fod gofynion enfawr gan ysgolion ac athrawon i gyflawni. Gweli'r bod yn anodd cyflawni pob egwyddor sydd angen gan sicrhau fod anghenion pob disgybl ar ysgol yn cael ei chwrrdd. Pan wnaeth yr ysgolion ymateb ar ei phrofiadau, dywedodd Newton (2018) fod rhai ysgolion wedi dweud fod y cwricwlwm newydd yn sicrhau addysg fwy effeithiol i ddisgyblion ac ysgolion o fewn lleoliadau anfantais, ond er bod rhai ysgolion yn dweud hyn, dangosa Newton (2018) fyddai rhai ysgolion yn dadlau yn wahanol gan ddweud nid oeddent yn hollol hyderus ar y ffaith fod dyma'r dewis gorau i ddisgyblion sydd yn dod o gefndiroedd caled. Yn weddol agos at yr hyn mae Newton yn ei ddweud, dangosa'r BBC (2017) fod nhw wedi gweld yr un fath o broblemau a bod y cwricwlwm newydd yn dioddef o broblemau heriol.

Adfyfrio beirniadol ar sut rydych wedi gweithredu argymhellion y 3 egwyddor addysgeq ar gyfer datblygiad pellach.

Egwyddor addysgeq: Mae addysgu a dysgu da'n golygu dilyn egwyddorion asesu ar gyfer dysgu (Aagd)

O fewn PAP1, dwi yn teimlo fy nghryfderau o'r egwyddor aagd oedd y defnydd o ffon loli ar oleuadau traffig. O fewn pob gwers, gyda'r dechreuad i'r wers ar glo, defnyddiais ffon loli, teimlais fod y dosbarth cyfan yn dilyn yr holl wers oherwydd ar unrhyw adeg pan yn briodol fe wnes i holi cwestiynau gan ddefnyddio'r enwau a daeth allan, roedd hyn yn sicrhau nid oedd unrhyw gwahaniaethu yn digwydd ac yn ymestyn ar ddysgu rhai disgyblion a oedd o safon isel o fewn y pwnc. Pan ddaeth y disgyblion i'r arfer ac fel oedd y ffon loli yn gweithio, welais fod llawer o aelodau'r dosbarth yn hyderus ac yn gobeithio fod ei enw nhw yn codi, dangosodd hyn fod y disgyblion yn deall y gwaith oherwydd mae'r disgyblion am ymateb i'r cwestiynau ac am gael tro ar y bwrdd digidol. Mae defnyddio'r ffon loli yn dangos a yw'r disgyblion yn ddigon parod i fynd ar dasg ac yn rhyw fath o asesiad ffurfiannol. Dangosa Goodrich (2012) fod defnyddio'r strategaeth yma yn symud bant of defnydd o ddwylo i fynnu i ateb y cwestiwn oherwydd bod gwneud hyn yn dueddol o gael yr un disgyblion i ymateb ac nid yw pob disgybl o fewn y dosbarth wedi ymrwymo, mae'n dangos fod llais pob disgybl yn bwysig ac yn dangos beth yw'r disgywiliadau o fewn y dosbarth.

Un o'r gwendidau or strategaeth yma oedd bod rhai disgyblion a oedd yn adnabod yr ateb ddim yn cael y siawns i ddweud yr ateb. Clywais rhai disgyblion yn ddweud 'Nid yw enw fi wedi dod allan eto' ac felly dyma un o'r gwendidau a wnaeth codi. Er bod gwendidau wedi arddangos o ddefnyddio'r strategaeth yma, mae'n bwysig weithio trwy rain a chadw defnyddio'r strategaeth oherwydd, fel mae Hattie yn dweud o fewn Waack, (2019, para 9) 'According to Hattie, (2012) and Black & William (2001) formative evaluation refers to any activity used as an assessment of learning progress before or during the learning process itself'. Dangosa hyn y pwysigrwydd o ddefnyddio'r strategaeth yma.

O fewn y portffolio, welsom y defnydd or bys bawd goleuadau traffig gyda'r esboniad o beth yw pwrpas rhain. Dw i yn teimlo dim ond nghryfderau a wnaeth dod o rain. Teimlais or cychwyn, bu'r disgyblion yn defnyddio'r rhain yn y ffordd gywir pan ofynnais iddynt ymateb gyda nhw er mwyn weld a oedd y disgyblion yn deall neu beidio. Welais fod y disgyblion yn onest gyda theimladau nhw or wers a faint o nhw yn deall, neu a oedd angen ail esbonio cyn dechrau ar dasg. Yn ganol y gwersi fyddwn yn gofyn i bawb i stopio a dangos ei bys bawd lliw eto er mwyn weld pwy oedd angen fwy o gymorth a pwy oedd yn deall. Weithiodd y strategaeth yma yn dda iawn. Yn wahanol i rain, welais fod y sticeri lliw ddim yn gweithio mor effeithiol. Gwelwn o fewn y llenyddiaeth yn gynharach a gan Black, Harrison a Lee, et al (2003, t2) bod aagd yn wahanol iawn i asesu disgyblion yn ffurfiol, mae asesu anffurfiol yn rhywbeth fod athrawon yn gwneud o fewn y dosbarth yn y ffordd sydd fwyaf effeithiol iddyn nhw, ond gyda'r sticeri welais o fewn y gwersi fod rhai unigolion yn rhoi lliw penodol am resymau gwahanol i'r gwaith academaidd e.e. 'wedi cweryla gyda ffrind' yn ystod y wers, neu ddim yn gallu ffeindio sticer lliw cywir ac felly wedi rhoi'r lliw sticer a oedd yn agosach.

Egwyddor addysgeq: Drwy addysgu a dysgu da bydd y cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd, gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, yn cael eu cryfhau'n gyson a chyfleoedd yn cael eu darparu i'w harfer.

Gweli'r o fewn y llenyddiaeth yn gynharach y pwysigrwydd o ddefnyddio'r egwyddor drawsgwricwlaidd. Yn ystod PAP1 defnyddiais amryw o strategaethau trawsgwricwlaidd pan yn addas a gweli'r enghreifftiau o rain o fewn yr adran gyntaf o'r aseiniad gydag esboniad clir ar pam dw i yn credu fod defnydd o drawsgwricwlaidd yn bwysig. Wrth adfyfrio nôl, dw i yn teimlo un o'r gwendidau oedd ar ddechrau'r cyfnod PAP welais yn anodd cynnwys sgiliau fel rhifedd neu lythrennedd o fewn i wersi mewn ffordd naturiol. Wrth deimlo fod hyn yn anodd, pan aeth amser ymlaen teimlais fod hyn wedi troi i mewn i un o fy nghryfderau gan weld fod y disgyblion yn ymateb i'r gwaith a sgiliau trawsgwricwlaidd a daeth yn llawer mwy haws i ddod ar sgiliau yma i mewn yn ffordd effeithiol.

Gan edrych ar y cynllun gwers gyntaf, gyda'r gwahaniaeth o fewn 1000 gwelwn fod y sgil rhifedd yn ffitio i mewn i'r wers yn berffaith gyda disgyblion yn gweithio ar ei sgiliau llythrennedd gan gydweithio gyda'i gilydd o fewn y wers gan gael sgysiau amdano gwestiynau gan helpu ei gilydd gweithio allan cwestiynau ar y bwrdd digidol wrth rannu syniadau. Teimlais o fewn y wers yma weithiodd y sgiliau trawsgwricwlaidd yn naturiol iawn a dyma un o'r cryfderau sydd yn sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol.

Dangosa Filer, Thiessen a Pollard (1997, t1) fod y math o gwricwlaidd mae disgyblion yn dysgu o yn chwarae rhan enfawr o ran sicrhau addysgu a dysgu effeithiol, ac ers blynnyddoedd yn nôl gweli'r bod llais y disgyblion yn bwysig o ran cynllunio cwricwlwm a gwersi gwahanol a bod hyn yn effeithio ar y math o addysg mae disgyblion yn derbyn. Gan edrych ar yr ail wers Mathemateg o fewn yr adran portffolio, gweli'r eto fod y wers a gynlluniwyd yn cynnwys sgiliau trawsgwricwlaidd, o fewn y wers thermomedrau gweli'r bod y disgyblion wedi ymrwymo i mewn i'r wers gan ddod i fynnu a defnyddio'r bwrdd digidol er mwyn rhoi cynnig ar y cwestiynau mathemateg sydd yn dilyn y sgil cymhwysedd digidol, ond yr unig wendid o hyn yw nid oes amser i bawb o fewn y wers i gael tro ac felly nid yw pawb yn bwrw'r sgil o fewn un wers. Fe wnes i lwyddo i sicrhau fod y sgil rhifedd yn dod i mewn i'r wers yn naturiol. Y peth a hoffais y fwyaf oedd y gêm a wnaethom chwarae fel dosbarth, gwelais fod ymateb y disgyblion yn arbennig ac yn bwysicach yn bwrw sgil llythrennedd. Bu angen i'r disgyblion weithio o fewn par er mwyn symud i fynnu ac i lawr y llinell rhif gan ddilyn cwestiynau'r gêm, wrth wneud hyn bu'r disgyblion yn cyfathrebu wrth gwblhau'r gêm ac yn ehangu ar yr hyn a dysgon nhw a sut i symud hyn ymlaen gan rannu syniadau fel par.

Er bod nifer o gryfderau o drawsgwricwlaidd, un o'r gwendidau yw amser, o'r profiad ar PAP1 welais fod nifer o athrawon a fi yn gweld yn anodd weithiau gyda sicrhau amser er mwyn paratoi'r sgiliau ychwanegol o fewn pob gwers. Wrth edrych ar y

wers daearyddiaeth o fewn y portffolio i wneud y wers yn fwy diddorol dyma le chwaraeodd y sgiliau trawsgwricwlaidd rhan enfawr. Wrth i'r disgyblion defnyddio'r sgil llythrennedd cafodd y disgyblion y tro egluro'r hyn maen nhw wedi darganfod gan drafod ei waith. Wrth ddarganfod y wybodaeth bu'r disgyblion yn defnyddio 'chromebooks neu lpads er mwyn darganfod y wybodaeth briodol a weithiodd y disgyblion o fewn parau neu grwpiau. Wrth i'r wers yma cymryd lle, teimlais fod y trawsgwricwlaidd wedi gweithio yn effeithiol ac wedi sicrhau gwers ddiddorol i'r disgyblion sydd yn cyd-fynd ar lenyddiaeth a wnaethom siarad amdano yn gynharach lle dylai wersi fod yn ddiddorol ac ymrwymol i ddisgyblion. I symud ymlaen o fewn PAP2 hoffwn gadw gwneud yr un fath o beth gyda'r sgiliau trawagwricwlaidd ac mae'n bwysig cofio fod rhai gwersi yn mynd i weithio yn well nag eraill.

Egwyddor addysgeg: Mae addysgu a dysgu da yn golygu gosod tasgau a dewis adnoddau sy'n adeiladu ar wybodaeth a phrofiad blaenorol ac yn ennyn diddordeb.

Yn ystod PAP1 teimlais dyma'r un or egwyddorion a wnes i yn llwyddiannus. Ar ôl derbyn adborth or athro dosbarth, dywedodd daeth yr egwyddor yma yn naturiol o fewn i fy ngwersi a dw i yn teimlo fod hyn wedi cael effaith ar yr addysgu a dysgu o fewn y dosbarth. Teimlais ei fod yn bwysig holi'r disgyblion cyn dechrau'r wers i adnabod beth oedd y disgyblion yn ei wybod yn barod ac wedyn yn ehangu ar hyn oherwydd bu hyn yn sicrhau nid oes unrhyw wastraff amser yn digwydd ac felly nid rydych yn colli diddordeb y disgyblion gan fynd dros rywbeth maent yn ei adnabod yn barod. Os edrychi'r nôl at y portffolio gan edrych ar y cynllun wers lle fyddai'r disgyblion yn cael trafodaeth, dechreuais y wers yma gan holi nhw am beth ohonyn nhw yn gwybod a beth oedd ei farn nhw ac wedyn symud nhw at gael trafodaeth o fewn grwpiau gwahanol gyda'r cwestiwn 'A ddylai tegannau plastic sydd yn dod gyda'r 'happy meals' cael ei gwahodd?' Wrth wneud hyn, edrychom ar topic diddorol a berthnasol fel gwelwch o fewn y portffolio sef tegannau plastic a'i effaith nhw ar y byd a wnaeth hyn ennyn diddordeb y disgyblion oherwydd roedd yn berthnasol i'w bywyd nhw.

Wrth edrych ar yr ail gynllun wers, welwn fod wir bwrpas y gwersi yma yw paratoi'r disgyblion tuag at asesiad, ond gan fod y disgyblion yn dangos ddiddordeb ni theimlodd y disgyblion ei fod nhw yn gwneud gwaith a dyma un o'r cryfderau o'r egwyddor yma, teimlais ei fod yn tynnu'r gorau allan o'r disgwylion. Bu'r disgyblion ar dasg yn syth gan drefnu pwyntiau o blaid ac yn erbyn fel gwelsom yn y trydydd llun. Yn ystod y gwersi yma edrychom ar fideo David Attenborough amdano'r amgylchedd ac effaith o blastig yn y môr ac fe wnaethom fynd ar drip i Gefn Sidan i weld faint o sbwriel oedd ar y traeth. Defnyddiais adnoddau perthnasol fel lpads a 'chromebooks' er mwyn i ddisgyblion fynd ati ac ymchwilio yn fwy. Ar un adeg fe wnaethom baratoi ysgrifennu neges trydar er mwyn codi ymwybyddiaeth or fater, wnaeth pob gweithgaredd a wnaeth y disgyblion cwblhau paratoi nhw at ei asesiadau iaith ac ysgrifennu. Gwelwn yn yr adran portffolio ofynion Llywodraeth Cymru am y cwricwlwm newydd, dw i yn awgrymu fod yr egwyddor addysgeg yma yn un bwysig iawn i ddefnyddio, maent yn ehangu ar sgiliau disgyblion ac yn paratoi nhw am y byd o'u gwmpas.

Gan edrych ar y llun olaf, fe welwn daflen werthuso o'r asesiad mae'r disgyblion wedi bod yn gwneud gyda'r ddwy seren a dymuniad ac wedyn nodiadau fi fel darpar athro ar ôl marcio gwaith y disgybl. Bu'r disgyblion yn ysgrifennu dau bwynt o dan y seren i ddweud beth aeth yn dda ac wedyn un targed. Dangosa Education Scotland (2019) fod hyn yn bwysig i ddisgyblion i wneud oherwydd mae'n bwysig fod disgyblion yn ail edrych ar ei waith er mwyn cael dealltwriaeth well am dro nesaf a beth sydd angen weithio arno.

Yr unig wendid o'r egwyddor yma dw i yn teimlo yw, oherwydd bu'r gwaith a wnaethom fel paratoad yn ddiddorol ac yn waith ymarferol ar adegau, er ein bod ni wedi creu drafft am yr asesiad, am y disgyblion lefel isel oedd rhai yn gweld y rhan ysgrifennu yn anodd ac nid oedd hyn wir yn dangos ei dealltwriaeth gan gymharu ei waith o fewn y gwersi.

I gasglu, welwn fod nifer o lenyddiaeth yn arddangos barnau gwahanol o'r egwyddorion addysgeg a edrychi'r ar. Wrth adfyfrio nôl ar brofiad PAP1 mae'n dangos manteision ac anfanteision i bob egwyddor. Mae'n bwysig cofio fod angen defnyddio'r rhain i'r ffordd gorau a fydd yn gweithio o fewn eich dosbarth chi, er bod gan nifer o lenyddiaeth barnau gwahanol mae angen ystyried fod pob un wedi cael ei ddefnyddio o fewn amgylcheddau gwahanol, gydag anghenion gwahanol o fewn pob dosbarth. Dw i wedi dysgu fod yn bwysig rhoi cynnig ar bopeth ac wedyn adnabod yr hyn sydd yn gweithio yn fwyaf effeithiol. Mae'n amlwg fod yr egwyddorion yma yn chwarae rhan bwysig o fewn addysg heddiw felly mae'r ffordd yr ydym yn ei ddefnyddio yn effeithiol ar y disgyblion o fewn y dosbarth, mae adlewyrchu nôl ar ein gwaith fel athrawon yn helpu ni i ddysgu ac i fod yn athrawon mwy llwyddiannus yn y dyfodol.

Rhestr Gyfeirnod

Friday, January 3, 2020 11:05 AM

Rhestr Gyfeirnod

1. Assessment Foundation. (2017) *The Donaldson Report: A Successful Future For Assessment?* Ar gael: <http://www.assessmentfoundation.org/blog/the-donaldson-report-a-successful-future-for-assessment-part-1-of-3.html>; [Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2019].
2. BBC. (2017) *New Wales Donaldson curriculum facing 'challenges'*. Ar gael: <https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-38855531>; [Darllenwyd: 27 Rhagfyr 2019].
3. Black, P., Harrison, C., Lee, C., Marshall, B., Wiliam, D. (2003) *Assessment for Learning: Putting it into practice*. Maidenhead & Philadelphia: Open University Press.
4. Clarke, S. (2005) *Formative Assessment in Action weaving the elements together*. Llundain: Murray
5. Donaldson, G. (2015) *Dyfodol Llwyddiannus*. Ar gael: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/dyfodol-llwyddiannus.pdf>; [Darllenwyd: 10 Rhagfyr 2019].
6. Education Scotland. (2019) What is assessment, and when and how does it take place? Ar gael: <https://education.gov.scot/parentzone/learning-in-scotland/assessment-and-achievement/what-is-assessment-and-when-and-how-does-it-take-place/#>; [Darllenwyd: 3 Ionawr 2020].
7. Estyn. (2018) *Arloesi'r cwricwlwm mewn ysgolion cynradd*. Ar gael: <https://www.estyn.llyw.cymru/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/Curriculum%20innovation%20in%20primary%20schools%20-%20cy.pdf>; [Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2019].
8. EWC. (2016) *AMBITION AND CURRICULUM REFORM. Professor Graham Donaldson*. Ar gael: <https://www.google.co.uk/url?sa=t&rct=j&q=&esrc=s&source=web&cd=6&ved=2ahUKEwj6k6Os07mAhVMhlwKHxvIAmwQFjAFegQIARAC&url=https%3A%2F%2Fwww.ewc.wales%2Fsite%2Findex.php%2Fen%2Fdocuments%2Fabout%2Fprofessionally-speaking%2F99-professor-donaldson-presentation-professionally-speaking-2016.html&usq=AOvVawOpUnyNqcfUA6Lcn6II8cH>; [Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2019].
9. Filer, Thiessen, Pollard. (1997) *Children and their Curriculum. The perspectives of Primary and Elementary School Children*. Llundain: Falmer Press
10. Goodrich, K. (2012) *Classroom Techniques: Formative Assessment Techniques Number One*. Ar gael: <https://www.nwea.org/blog/2012/classroom-techniques-formative-assessment-technique-number-one/>; [Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019].
11. Impact School Improvement (2016 – 2019) *Ty Sign Primary, Supporting a large primary school to become Donaldson Ready*. Ar gael: <https://www.impact.wales/case-studies/ty-sign-primary-donaldson-readiness/>; [Darllenwyd: 21 Rhagfyr 2019].
12. Llywodraeth Cymru. (2019) *Professional standards for teaching and leadership: national approach to professional learning*. Ar gael: <https://hwb.gov.wales/professional-development/national-approach-to-professional-learning/professional-teaching-and-leadership-standards-national-approach-to-professional-learning>; [Darllenwyd: 18 Rhagfyr 2019].
13. Llywodraeth Cymru. (2017) *New school curriculum: overview*. Ar gael: <https://gov.wales/new-school-curriculum-overview>; [Darllenwyd: 3 Ionawr 2020].
14. Newton, N. (2018) *Hopes and Fears: The development of a new curriculum in Wales*. Ar gael: <https://www.bera.ac.uk/blog/hopes-and-fears-the-development->

[of-a-new-curriculum-in-wales](#); [Darllenwyd: 27 Rhagfyr 2019].

15. Waack, S. (2019) *Glossary of Hattie's influences on student achievement*. Ar gael: <https://visible-learning.org/glossary/>; [Darllenwyd: 29 Rhagfyr 2019].

Llyfryddiaeth:

1. Harlen, W. (1994) *Enhancing Quality in Assessment*. Llundain: BERA - British Educational Research Association
2. Wragg, E.C. (2001) *Assessment and Learning in the Primary School*. Llundain: Routledge